# PENNOD 12: CRYNODEB O ARGYMHELLION

Yma rydym yn ailadrodd yr argymhellion yr ydym wedi eu gwneud ymhob pennod, gan eu grwpio o dan benawdau sy'n dynodi eu natur a'u pwrpas.

## PENNOD 5: GWERTHUSIAD BEIRNIADOL O'R GWASANAETH IEUENCTID

### Tasgau a dulliau

1. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid ddyletswydd i helpu'r holl bobl ifanc sydd ei angen. (5.2)
2. Tasg y Gwasanaeth Ieuenctid yw darparu addysg gymdeithasol. Mae wedi datblygu dulliau penodol o weithio, gan gynnwys cwricwlwm arbrofol, gwirfoddoliaeth, perthynas an-awdurdodol rhwng gweithwyr a phobl ifanc, ac annog pobl ifanc i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Dylid dod â'r holl ddulliau hyn o weithredu i mewn i'r gwaith. (5.5-5.6)
3. Dylai Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff gwirfoddol, mewn partneriaeth, sicrhau fod lledaeniad daearyddol darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn decach. (5.12)
4. Mae darpariaeth ar gyfer pobl ifanc dros 16 mlwydd oed yn angen brys. (5.13)
5. Dylid cryfhau cyfranogiad pobl ifanc ar bob lefel - mewn grwpiau gweithgaredd, clybiau, materion lleol, sefydliadau ieuenctid cenedlaethol ac ar lefelau rhyngwladol a chenedlaethol. Gall ddilyn amrywiaeth o batrymau. (5.19-5.22)
6. Dylid rhoi lle sicr i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynghori o fewn cynllunio darpariaeth leol. Dylai'r awdurdodau sy'n darparu gadw hyn mewn golwg, a sicrhau fod nawdd yn digwydd ar sail reolaidd a systematig. (5.28-5.29)
7. Dylai cyfranogiad cymunedol fod ar gael i bob person ifanc gyda'r rhyddid dewis a'r cyfle mwyaf. (5.33)
8. Dylai darparu addysg wleidyddol fod yn rhan naturiol o gwricwlwm y Gwasanaeth Ieuenctid, wedi'i ddilyn mewn ffyrdd sy'n golygu cyfranogiad gweithgar. Ffyrdd o wneud hyn yw rhoi mwy o sylw i addysg wleidyddol mewn cyrsiau hyfforddi a thrwy ystyriaeth weithgar ar lefel leol a chenedlaethol, yn enwedig o ran pwyllgorau rheoli. (5.36-5.41)
9. Dylai gweithwyr ieuenctid adeiladu ymwybyddiaeth o gyd-destun rhyngwladol i mewn i'w gwaith. (5.46)

## PENNOD 6: HER AC YMATEB

### Anghenion ac Asiantaethau Eraill

1. Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid a gwasanaethau eraill sy'n delio gyda phobl ifanc ddatblygu ffyrdd o gydweithio. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw meithrin trefniadau cydweithio gyda gwasanaethau eraill, wrth barchu annibyniaeth a gwir rôl pob un ohonynt. Bydd hyn yn annog y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid, staff a chyfleusterau. (6.3-6.10)
2. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid rôl hanfodol i gynorthwyo gyda darparu cyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ddi-waith; i gynnal eu hyder

cymdeithasol, sgiliau a'u cymhelliant; ac i wneud cyfraniad, gan gynnwys noddi cyrsiau, i gynllunio, cyflwyno a rheoli'r Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid. Bydd angen darpariaeth ar gyfer y bobl ifanc hynny heb hyfforddiant addas ar eu cyfer, sydd dal yn ddi-waith wedi cwblhau hyfforddiant, neu sy'n gaeth mewn swydd ddiobaith. (6.11-6.18)

3. Mae cydgyfeirio amcanion a dulliau yn ei gwneud hi hyd yn oed yn fwy hanfodol fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn cyfrannu i waith a chwricwlwm ysgolion a cholegau.
4. Mae angen arbennig i gydlynu rheolaeth yng nghanol dinasoedd. (6.27-6.29)
5. Mewn ardaloedd gwledig dylid rhoi sylw i ddarparu nawdd teg a darpariaeth briodol o ran dull. (6.35-6.42)
6. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid, yn gyffredin ag asiantaethau a gwasanaethau eraill, ddyletswydd i frwydro yn erbyn hiliaeth ymhob ffurf. (6.35-6.42)
7. Dylid cydnabod anghenion cymunedau ethnig wrth gynllunio, rheoli a chyflwyno darpariaeth ieuenctid leol. (6.43-6.49)
8. Dylai'r Gwasanaeth gymryd camau bwriadol i sicrhau nad yw datblygiad personol merched yn cael ei lesteirio gan agweddau cymysglyd neu adweithiol ynglŷn â rôl merched mewn cymdeithas, neu gan agweddau rhywiaethol y Gwasanaeth ei hun. Dylid darparu ar gyfer anghenion datblygiad personol merched mewn lleoliadau cymysg, efallai gyda chynnydd dros dro, mewn darpariaeth ar wahân. (6.50-6.54)
9. Mae integreiddio pobl ifanc dan anfantais i mewn i'r gymuned yn awgrymu amrywiaeth yn y ddarpariaeth, yn integredig ac ar wahân. (6.55-6.60)

## PENNOD 7: GWASANAETH IEUENCTID AR GYFER YR 1980au

## AMCANION, BETH SYDD I'W GYNNIG AC YSTOD OEDRANNAU

1. Dylai amcanion cyffredinol y Gwasanaeth Ieuenctid gael eu gweld fel rhai sy'n cadarnhau hunangred unigolion ac yn annog eu cyfranogiad yn y gymdeithas. (7.3-7.5)
2. Mae angen i'r Gwasanaeth Ieuenctid gydnabod yr angen am ddatblygiad ysbrydol yr unigolyn. (7.6)
3. Y prif ffyrdd y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cyflawni'r amcanion hyn fydd *cymdeithas* (man cwrdd); *gweithgareddau, cyngor,* gwybodaeth a chynghori; ffyrdd i *weithredu* yn y gymuned; a *mynediad* at sgiliau bywyd a galwedigaethol. (7.7-7.13)
4. Dylai awdurdodau addysg lleol barhau i gadw'r pŵer i ddarparu, neu gynorthwyo gwasanaethau eraill i ddarparu, ar gyfer pobl ifanc o bob grŵp oed. Dylai dyletswyddau statudol gynnwys oedrannau 11-20. (7.14-7.18)

## PENNOD 8: STRWYTHURAU
### Rheolaeth ar Lefel Genedlaethol a Lleol

1. Mae angen strwythurau priodol ar gyfer y bedair swyddogaeth reoli sylfaenol sef gosod amcanion, pennu swyddogaethau, dyrannu adnoddau, a monitro perfformiad er mwyn eu cyflawni ar lefel genedlaethol a lleol. (8.2)
2. Gallai'r weithred o osod amcanion ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ar lefel genedlaethol gael ei chyflawni yn briodol drwy ddeddfwriaeth. (8.3)

3. Dylid pennu Gweinidog, wedi ei leoli yn y DES, i gydlynu gwaith yr holl adrannau sydd â diddordeb mewn materion ieuenctid. (8.4)
4. Dylid apwyntio cyngor ymgynghorol i gynghori Gweinidogion ar faterion ieuenctid. Dylai gynnwys nifer fechan o unigolion wedi'u hapwyntio mewn rhinwedd personol ac anghynrychioladol, yn adlewyrchu ystod eang o ddiddordebau yn ymwneud ag ieuenctid. Dylai gael ei wasanaethu gan y DES gan gadw hunaniaeth gyhoeddus eglur. (8.10)
5. Dylid adolygu cylch gorchwyl a strwythur cyfundrefnol y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol er mwyn ei alluogi i gyflawni'r tasgau o gasglu a dadansoddi data ynglŷn â materion ieuenctid a lledaenu gwybodaeth am ymarfer da ac arloesol yn fwy effeithiol. (8.17-8.19)
6. Ar lefel leol dylai'r awdurdod addysg lleol gael ei adnabod fel y prif ffocws ar gyfer materion ieuenctid a dylai dderbyn cyfrifoldeb statudol am gydlynu o ran gwasanaethau'r awdurdod lleol ei hun, rhwng gwahanol haenau o lywodraeth leol a rhwng gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol. (8.21-8.22)
7. Dylid rhoi dyletswydd statudol i Awdurdodau Addysg Lleol greu'r peirianwaith i sicrhau fod cyfathrebu ac ymgynghori rheolaidd ac effeithiol yn digwydd gyda sefydliadau ieuenctid gwirfoddol, ar draws y bedair swyddogaeth reoli. Ni ddylid rhagnodi ffurf fanwl y peirianwaith hwn; dylid gadael lle ar gyfer amrywiaeth leol. (8.29-8.31)
8. Dylai sefydliadau ieuenctid gwirfoddol yn yr ardal gymryd camau i sicrhau fod ganddynt y gallu i weithredu yn gyfunol wrth adnabod a datrys materion yn ymwneud â pholisi a chwarae eu rhan mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Addysg Lleol. Gall consortia lleol, fel y Cynghorau Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol presennol, fod yn addas ar gyfer y bwriad hwn. (8.31)
9. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, bydd consortiwm o'r fath angen cymorth gweinyddol a staff, a all olygu apwyntiad penodol. Ni ddylid tybio y bydd swyddog o'r Awdurdod Addysg Lleol yn ymgymryd â'r gwaith hwn. (8.32)
10. Rydym yn gosod pwysigrwydd ar rôl cynghorau ieuenctid lleol ac ymglymiad pobl ifanc â strwythurau gwneud penderfyniadau yn lleol sy'n digwydd yn sgîl y cynghorau hynny. (8.34)
11. Yng nghanol y strwythur lleol dylai fod cydbwyllgor y mae'r awdurdod lleol yn dirprwyo swyddogaethau a phwerau penodol iddo. Yn rhan ohono, dylai cynrychiolwyr o sefydliadau gwirfoddol, pobl ifanc a'r awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd i ffurfio ac adolygu polisi ac i fonitro perfformiad. (8.35)
12. Dylai sefydliadau Gwasanaeth Ieuenctid a'u staff fod ynghlwm yn weithgar gyda threfniadau lleol ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid arfaethedig, fel aelodau o fyrddau lleol ac fel asiantaethau rheoli ac fel noddwyr. (8.38-8.39)

## PENNOD 9: STAFFIO A HYFFORDDIANT

### Staffio

1. Dylai gweithwyr dderbyn fel rhannau hanfodol o'u swydd, gwaith rheoli, yn cynnwys gwaith personél a gweinyddu, gwaith wyneb yn wyneb, yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc a datblygu cymunedol. Dylai'r pedair swyddogaeth hyn gael eu hadlewyrchu yn eu hyfforddiant. (9.1)

2. Dylid gwneud mwy i gywiro’r cydbwysedd o ran merched a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig ymhlith gweithwyr llawn amser ac ar lefel swyddog. (9.4-9.5)
3. Dylai rheolwyr ystyried darganfod ffyrdd o ddatrys y broblem o gynnal moral ymysg gweithwyr llawn amser mewn gwasanaeth bychan a phenagored, e.e. drwy hwyluso trosglwyddiadau ac ehangu strwythur yr yrfa. (9.9-9.10)
4. Mae gweithwyr rhan-amser yn darparu sgiliau arbennig a chysylltiadau gyda’r gymuned leol, ac mae ganddynt anghenion briffio a goruchwyliaeth arbennig. (9.16-9.17)
5. Mae gwirfoddolwyr yn nodwedd arbennig o’r Gwasanaeth Ieuenctid ond ni ddylid cymryd eu cyfraniad yn ganiataol. Rhaid gwneud ymdrech arbennig i’w recriwtio a’u cadw. (9.18-9.21)

## Hyfforddiant

6. Mae angen amlwg a brys am banel goruchwylio cenedlaethol i achredu a monitro hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant mewn swydd i staff. Dylai ymwneud â chyflenwi yn ogystal â hyfforddiant. (9.30)
7. Dylid rhoi ystyriaeth i dderbyn athrawon cymwysedig yn weithwyr ieuenctid cymwysedig ond ar ôl asesu’r hyfforddiant maent wedi cwblhau neu’r hyfforddiant y maent yn barod i’w gwblhau. Dylid datblygu ac ehangu’r opsiwn ieuenctid yng nghyrsiau Baglor Addysg. (9.34-9.35)
8. Dylid rhoi ystyriaeth brys i ddatblygu nifer o feysydd o’r gwasanaeth prawf, cymorth proffesiynol a hyfforddiant mewn swydd. (9.37-9.40)
9. Dylai grantiau gorfodol fod ar gael i bobl sy’n ymgymryd â chwrs hyfforddiant cychwynnol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. (9.43-9.44)
10. Dylid parhau i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer staff rhan amser a gwirfoddolwyr ar lefel leol, ond dylai rol cymedroli a chydlynu gael ei gyflawni gan Gynghorau Cynghorol Rhanbarthol. (9.50)

## PENNOD 10: ADNODDAU

1. Dylid cadw ystadegau cynhwysfawr ar sail ddibynadwy, gyson a phosib eu cymharu ar gyfer y sectorau statudol a gwirfoddol. (10.1; gweler hefyd 8.15)
2. Dylid ariannu’r Gwasanaeth Ieuenctid ar lefel uchel. Dylai adnoddau fod ar gael i ddatblygu gwaith i wrthwynebu amddifadedd mewn dinasoedd, ynysu gwledig a hiliaeth; ymrwymiad llawn i gynlluniau hyfforddiant ar gyfer y cyflogedig a'r di-waith; mwy o gyfleoedd i ferched; a mesurau i integreiddio pobl dan anfantais. (10.24-10.25)
3. Dylid dod â pheirianwaith i fonitro effeithiolrwydd y defnydd o’r adnoddau i fodolaeth fel rhan o’r strwythurau lleol a chenedlaethol a drafodwyd ym mhennod 8. (10.25). Dylai fod yn arfer safonol ymysg awdurdodau lleol i sicrhau fod yr holl adnoddau, beth bynnag oedd tarddiad yr arian, yn destun dulliau cywir o adolygu a gwerthuso. (10.26)
4. Dylai ariannu’r sector statudol gael ei sianelu drwy rwydwaith creu polisi arferol yr adran o’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am y Gwasanaeth Ieuenctid, a dylid lleihau’r anghysondeb ariannu sydd ar gynnydd rhwng gwahanol ardaloedd. (10.25)
5. Dylai awdurdodau lleol barhau i wneud popeth yn eu gallu i gynorthwyo gwirfoddolwyr. (10.27)

6. Dylai awdurdodau lleol gynorthwyo cyrff gwirfoddol drwy gynnal cymorth i swyddogion, drwy wneud mwy o adeiladau addysgiadol ar gael yn haws ac yn rhatach, a thrwy ariannu prosiectau neu gynlluniau cyfalaf newydd i wella neu adnewyddu'r adeiladau presennol. (10.28-10.29)
7. Dylai cynghorau dosbarth sicrhau fod sefydliadau ieuenctid yn cael defnydd teg o gyfleusterau cymunedol. (10.30)
8. Dylai cyrff gwirfoddol chwilio arian i sicrhau fod swyddogion ar gael ar gyfer rheoli tasgau ymhob rhanbarth, is-ranbarth neu sir.(10.31)
9. Dylai'r DES wneud y polisïau sydd wrth wraidd gwariant arfaethedig y Gwasanaeth Ieuenctid yn eglur. (10.32)
10. Dylai'r DES ddarparu o fewn cynlluniau gwariant cyhoeddus ar gyfer grantiau gorfodol i bobl sy'n ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant cychwynnol mewn gwaith ieuenctid. (10.33)
11. Dylai'r DES ystyried ymestyn cymorth grant i gyrff gwirfoddol er mwyn cynnwys:
    (a) rheolaeth ar lefel ranbarthol a sirol, a phrosiectau mewn arloesi rheolaethol (10.34); a
    (b) hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer staff rhan-amser a gwirfoddol. (10.35)

## PENNOD 11: DEDDFWRIAETH

Dylid cyflwyno deddfwriaeth fel sydd wedi'i bennu yn atodiad pennod 11 i ddiffinio amcanion eang y Gwasanaeth Ieuenctid a rhoi'r pwerau angenrheidiol i awdurdodau lleol gyflogi staff, darparu cyfleusterau a chynorthwyo cyrff eraill yn hyn o beth.

**PROFIAD A CHYFRANOGIAD (ADRODDIAD THOMPSON)**
**ADRODDIAD GRŴP ADOLYGU'R GWASANAETH IEUENCTID YN LLOEGR**
**HMSO 1982**

"Cyfleusterau wedi'u darparu ar gyfer pobl ifanc", fel y soniwyd yn (b) a (c) uchod, yn cynnwys cyfleusterau wedi'u darparu ar gyfer datblygiad personol a lles pobl ifanc gan ba bynnag sefydliad tu allan i gwricwlwm ffurfiol ysgolion a cholegau, yn cwmpasu clybiau ar gyfer pobl ifanc neu gyda phobl ifanc yn aelodau neu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc, prosiectau yn gweithio gyda phobl ifanc, neu sefydliadau eraill yn ymwneud â phobl ifanc. Gall darparwyr fod yn llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol (awdurdodau addysg ac eraill), sefydliadau gwirfoddol (lleol a chenedlaethol), pobl ifanc eu hunain ac eraill.

2. Yn unol â'r cylch gorchwyl hwn mae disgwyl y dylai'r Cyngor fod wedi cyfeirio ato ar gyfer gwneud sylwadau a chynghori ar bob prif gynnig newydd sy'n effeithio ar bobl ifanc o fewn cyfrifoldebau'r Ysgrifenyddion Gwladol priodol. Dylai hefyd fod yn gallu dechrau astudiaethau ac adolygiadau polisi, ymarfer ac adnoddau, yn y tymor byr a'r tymor hir, a lleisio'i farn wrth Weinidogion.

3. Byddai'r Cyngor yn cynnwys mwyafswm o ugain o bobl wedi'u penodi yn rhan-amser dros gyfnod penodol fel unigolion gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, wedi ymgynghori gyda'r Ysgrifenyddion Gwladol dros Gyflogaeth, yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch Cymdeithasol, a Materion Cartref. Byddai'r ystod o ddiddordeb a phrofiad y byddai'r aelodau yn cael eu dewis ohonynt yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol sydd ynghlwm â phobl ifanc, pobl ifanc eu hunain, cymdeithasau staff proffesiynol ac arbenigol ar gyfer darpariaeth yn ymwneud â phobl ifanc, a chymdeithas cyflogwyr ac undebau masnach. Dylai cyfansoddiad y Cyngor fod yn gydbwysedd priodol o wahanol grwpiau oedran, grwpiau ethnig, a dynion a merched. Byddai aseswyr y cyngor yn cael eu henwebu gan y prif adrannau gweinyddol sydd ynghlwm, sef Addysg a Gwyddoniaeth, Cyflogaeth/MSC, Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch Cymdeithasol, a'r Swyddfa Gartref.

4. Byddai'r Cadeirydd yn berson annibynnol wedi'i apwyntio yn rhan-amser gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, ac yn dod o dan yr un ymgynghoriad â'r aelodau.

5. Byddai'r Cyngor yn cael ei wasanaethu gan staff uned weinyddu o'r DES fyddai'n wybyddus i'r cyhoedd o'r enw {Swyddfa Materion Ieuenctid}.

## PENNOD 9: STAFFIO A HYFFORDDIANT

*Y tasgau mae oedolion yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgymryd â hwy: gwaith a rheoli wyneb yn wyneb. Patrwm staffio cyffredinol y Gwasanaeth Ieuenctid: cymysgedd unigryw o staff llawn amser, rhan-amser a gwirfoddol; cynrychiolaeth merched a lleiafrifoedd ethnig. Statws y proffesiwn. Gweithwyr a swyddogion llawn amser: ystyriaethau gyrfa. Rôl staff rhan-amser. Cyfraniad hollbwysig gwirfoddolwyr.*

*Hyfforddiant ar gyfer gwaith ieuenctid: arolwg o'r trefniadau presennol, ac o'r materion allweddol a godwyd yn y dystiolaeth. Angen corff goruchwylio cenedlaethol i asesu a monitro hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant mewn swydd; ystyriaeth gryno i rai o'r materion y dylai corff o'r fath fod yn eu harholi ac adolygu. Hyfforddiant i wirfoddolwyr a gweithwyr rhan-amser: angen monitro a chymedroli systemau lleol.*

9.1 Yn ystod ein hymholiad rydym wedi cwrdd â nifer o'r dynion a'r merched sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Ieuenctid - y gweithwyr ieuenctid, llawn amser a rhan-amser, y swyddogion a'r gweithwyr gwirfoddol. Hoffem dalu teyrnged o'r cychwyn i'r egni, brwdfrydedd a'r ymrwymiad y maent oll yn eu rhoi i'w swyddogaethau gwahanol, yn aml wrth wynebu digalondid. Yn wir, un o'r pwyntiau cyntaf i'w nodi am waith y Gwasanaeth Ieuenctid yw ei fod yn amrywiol ac ymdrechgar. Fel mae'r penodau cynt wedi amlygu, mae'r tasgau y mae oedolion yn cyflawni yn y Gwasanaeth yn ymestyn dros sbectrwm eang, gan gynnwys gwaith wyneb yn wyneb a gwaith rheoli, fel a ganlyn:

Gwaith wyneb yn wyneb

(1) gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc wrth ddarparu addysg gymdeithasol h.y. eu cynorthwyo gyda'u datblygiad personol drwy gynghori ac annog, trefnu gweithgareddau a helpu'r ifanc i drefnu eu gweithgareddau eu hunain, darparu presenoldeb cefnogol, ac ati;
(2) gwaith datblygu gyda chymunedau, helpu pobl ifanc ac oedolion yn y gymdogaeth i adnabod eu hanghenion a chreu iddyn nhw'u hunain ffyrdd i gwrdd â'r anghenion hynny;

Gwaith rheoli

(3) gweithio gyda staff eraill sy'n oedolion, llawn amser, rhan amser a gwirfoddolwyr, mewn amrywiol swyddogaethau gan gynnwys bod yn gydweithwyr mewn tîm, cyfranogi mewn gweithgareddau cydweithio, arwain a chyfarwyddo, goruchwylio a hyfforddi, ac ati;
(4) gweinyddu a chyllid, p'un ai'n ymwneud â gwaith ieuenctid mewn ardal gyffredinol, neu gyda chanolfan neu brosiect penodol, gan gynnwys paratoi a phrosesu cynlluniau a chyllidebau, ymgynghori gyda rheolwyr a phwyllgorau eraill, a gofal a chynnal a chadw adeiladau, a'r holl waith papur a'r ffonio y mae'r prosesau hyn, yn anochel, yn eu cynnwys.

Dyma'r prif adrannau yn unig, mae nifer o amrywiadau ac arbenigeddau, ond mewn un ffordd neu'r llall mae'r pedwar math hwn o waith yn cael lle amlwg yn y rhan fwyaf o swydd-ddisgrifiadau y Gwasanaeth Ieuenctid. Trown nawr i ystyried, yn gyntaf, yr amryw .......